# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

## RHAN 4

BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

### PENNOD 3

AMRYWIOL

**48 Cydlafurio rhwng byrddau gwasanaethau cyhoeddus**

(1) Caiff dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gytuno i gydlafurio os ystyrir y byddai'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i gydlafurio ym mha ffodd bynnag y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'n cynorthwyo'r byrddau i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

(3) At ddibenion yr adran hon, mae bwrdd yn cydlafurio os yw'n—

(a) cydweithredu â bwrdd arall,
(b) hwyluso gweithgareddau bwrdd arall,
(c) cydgysylltu ei weithgareddau â bwrdd arall,
(d) arfer swyddogaethau bwrdd arall ar ei ran, neu
(e) darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i fwrdd arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 48 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(2)**

**I2** A. 48 mewn grym ar 1.4.2016 gan O.S. 2016/86, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 48.